Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 14eg Rhagfyr 2015 am 7.00 o'r gloch,.

Presennol: Gadeirydd Robert Jones, Is Gadeirydd Wendy Whitby, H.E. Thompson, Gareth Evans, Eleri Puw, Dylan Davies, Cynghorwr Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.

Ymddiheuriad:

Datgan Diddordeb:

Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd

Derbyniwyd cofnodion Tachwedd a'u llofnodi gan y Cadeirydd

1. Cae Chwarae: Pasiwyd i gael prisiau paentio yr offer i gyd.
2. Mynwent : Pasiwyd i dalu Paul Cook a David Gabriel am agor beddau
3. Llwybrau: Pasiwyd talu Jones & Jones am ofal llwybrau, hefyd danfon ymlaen i Cyngor Gwynedd am ad daliad. Derbyniwyd cadarnhad gan Liz Haynes y byddai yn edrych i fewn i'n cwynion
4. Cyng. Gwynedd: Adroddodd Cyng Lawton mai 2,000 o etholwyr a atebodd i Her Gwynedd. Diolch iddi.
5. Ciosg: Nodwyd nad oedd rhain yn gweithio.
6. Cyngor Gwyneddd: Derbyniwyd llythyr yn rhoi cynnig i Cyngor Cymuned gymeryd mwy o gyfrifoldeb ymlaen. Ni allem ar hyn o bryd.
7. Un Llais Cymru: Adroddodd Cyng Emrys Thompson bod trafod defnyddio cyfrifiadur personol, cynnig i clercod gael cyfrifiadur gan y Cyngor a.y.b. Biniau Halen – cynnig bod y Cynghorau Cymuned yn dod at eu gilydd i weithio cynllun ynglyn a hyn. Pasiwyd i aros am ateb Cyngor Gwynedd. Nodwyd y byddai ffoaduriaid yn dod i Gwynedd ym Mis Ionawr. Danghoswyd pryder nad oedd Etholiadau tan 2017. Diolch iddo.
8. Comisiynydd Heddlu a Throseddau: Pasiwyd i'n Cadeirydd fynd i gyfarfod yngNglwb Golff Dolgellau ar 14eg o Ionawr am 6 o'r gloch.
9. Heddlu Gogledd Cymru: Derbyniwyd llythyr gan Wendy Kay yn trafod adfywio Gwarchod y Gymdogaeth.
10. Arwydd Electroneg: Derbyniwyd ateb gan Francis Sherrinton, Peiriannydd Cynorthwyol, yn cadarnhau y byddent yn cymeryd camau i amlygu'r arwyddion 30 m.y.a., gosod arwyddion newydd ar gefndir melyn, gosod nodwedd "gateway" coch ar draws y ffordd gyda stribedi rumble just cyn yr arwyddion a marciau araf/slow ar ochr arall yr arwyddion. Bydd hyn yn cael eu gosod ar ddau ochr y pentref.
11. Parc Eryri: Adroddodd Cyng. Lawton ei bod wedi mynychu cyfarfod Aberdyfi ar 19/11/15 – danghoswyd cyflwyniad ei gwefan newydd. Diolch iddi.
12. Cais Cynllunio: (1) Hendre Abergynolwyn – uwchraddio telathrebu – balch o glywed hyn.
    (2) Fferm Rhiwogof – y cais wedi ei ganiatau.
13. Ymgynghoriad Polisi Trwyddedau; 4 – 24 Tachwedd 2015.
14. Nat West: derbyniwyd bod FSCS deposit protection limit yn newid – business o £85,000 i £75,000.
15. Coeden Nadolig: Pasiwyd i ad dalu'r cost i'r Clerc
16. Adolygiad o Ddiogelwch Cefnffyrdd yng Nghymru; adroddiad ar http://traffic-wales.com/Trunkroadsreview.aspex?lang=cy-GB
17. Taliadau:

D Gabriel	agor bedd	95.00	siec 848
Paul Cook	agor bedd	300.00	849
Jones & Jones	llwybrau	660.00	850
E Jones	coeden/rhodd	25.00	851
J B Owens	blwch arian	21.99	852
L Hunt	Blwch arian	200.00	853

YMDDIRIEDOLAETH MARI JONES:

1. Yr oedd addewid gosod y Blwch arian yn y dyddiau nesaf. Pasiwyd i dalu pan fydda ni'n hapus a'r sefyllfa. Trafodwyd y trafferth oedd efo cyfrif Mari Jones, pasiwyd i ddefnyddio siec y Cyngor os oedd problem, ac yna cysylltu efo Nat West fel bo ad daliad i'r Cyngor. Gweler siec 52 a 53 uchod.

Cyfarfod Nesaf 11eg Ionawr 2015 am 7 o'r gloch